**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 oherwydd Covid-19**

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig:

i) newid hyd y cyfnod sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso (ANG) i isafswm o 1 tymor neu 110 o sesiynau; a hefyd
ii) caniatáu i sesiynau o ddysgu proffesiynol a wnaed gan ANG gyfrif tuag at y cyfnod sefydlu.

Ar hyn o bryd, ceir gofyniad statudol i ANG sy'n ymgymryd â chyfnod sefydlu mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru gwblhau tri thymor ysgol neu sesiynau cyfwerth. Rhaid i ANG nad ydynt wedi'u cyflogi'n llawn-amser gwblhau 380 o sesiynau mewn ysgol. Rhaid i ANG hefyd ddangos eu bod yn bodloni’r safonau proffesiynol er mwyn cwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus.

Ers 23 Mawrth 2020, mae'r ffordd y mae ysgolion ac athrawon (gan gynnwys ANG) yn gweithio wedi newid oherwydd yr angen i addasu ysgolion o ganlyniad i COVID-19.

Bydd ein newidiadau arfaethedig yn sicrhau nad yw ANG sy'n bodloni’r safonau proffesiynol ond nad ydynt wedi cwblhau tri thymor/380 sesiwn yn cael eu hatal rhag cwblhau eu cyfnod sefydlu'n llwyddiannus oherwydd effaith COVID-19. Maent hefyd yn ffurfioli'r arferion presennol ar gyfer cyfrif sesiynau o ddysgu proffesiynol tuag at y cyfnod sefydlu. Bydd y newidiadau'n berthnasol i ANG sy'n ymgymryd â'u cyfnod sefydlu ar hyn o bryd a hefyd ANG sy'n dechrau eu cyfnod sefydlu ym mis Medi 2020.

*Integreiddio:*

Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn **Ffyniant i Bawb** i helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o’u potensial drwy 'ganolbwyntio’n ddiflino ar wella cyrhaeddiad pob disgybl, gan weddnewid y safonau y mae’n rhaid i athrawon eu cyrraedd'.

*Cydweithio:*

Mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg a'r arweinwyr sefydlu yn y Consortia Addysg Rhanbarthol rolau allweddol yn y broses sefydlu statudol ac felly ganddynt fuddiant ar y cyd yn y cynnig hwn. Maent wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu’r cynnig o'r dechrau. Rydym hefyd wedi bod yn rhoi gwybod i undebau'r gweithlu am unrhyw ddatblygiadau.

*Costau ac arbedion:*

Bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau sefydlu'n cael eu hariannu yn y ffordd arferol drwy lythyr cynnig grant Cyngor y Gweithlu Addysg.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Ond bydd rhai arbedion gan na fydd bellach angen cefnogi ANG a fyddai wedi gorfod (o dan y Rheoliadau presennol) parhau â'u cyfnod sefydlu ym mis Medi am nad oeddent wedi bodloni'r gofyniad i gwblhau tri thymor / 380 sesiwn. Mae dadansoddiad llawn wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau.

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

**Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

Ni fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc.

**Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**
**Yr erthyglau canlynol yn CCUHP sydd fwyaf perthnasol i'r cynnig:**

- Erthygl 3 1. Ym mhob gweithred sy'n ymwneud â phlant, boed gan sefydliadau lles cymdeithasol cyhoeddus neu breifat, llysoedd barn, awdurdodau gweinyddol neu gyrff deddfwriaethol, dylai budd pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth.
- Erthygl 28 1. Mae Partïon Gwladwriaethol yn cydnabod hawl y plentyn i addysg, a chyda golwg ar gyflawni'r hawl hon yn flaengar ac ar sail cyfle cyfartal.
- Erthygl 29 1. Mae Partïon Gwladwriaethol yn cytuno y dylai addysg y plentyn fod wedi'i chyfeirio tuag at: (a) Datblygu personoliaeth, doniau a galluoedd meddyliol a chorfforol y plentyn i'w llawn botensial;

Mae anghenion a hawliau dysgwyr yn un o'r gwerthoedd a thueddfrydau sy'n tanategu'r safonau proffesiynol y mae'n ofynnol i ANG eu cyrraedd i gwblhau eu cyfnod sefydlu'n llwyddiannus. Bydd y cynigion yn sicrhau y bydd ANG yn cael cymorth llawn i gyrraedd y safonau proffesiynol i sicrhau addysg o ansawdd i'r holl ddysgwyr.

Bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ANG a rhanddeiliaid allweddol eraill cyn i Reoliadau 2020 ddod i rym i sicrhau bod pawb sy'n rhan o broses sefydlu'n gallu deall y newidiadau a wnaed yn glir.